| ENW'R PWYLLGOR | PWYLLGOR ARDAL DWYFOR |
|---|---|
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **26 MAWRTH 2012** |
| **TEITL** | **FFORYMAU ARDAL** |
| **AWDUR** | **Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| | |

***1.0 Cyflwyniad***

1.1 Yng nghynllun Tair Blynedd y Cyngor fe sefydlwyd prosiect ar gyfer hyrwyddo grymuso cymunedau gyda'r bwriad o wella ymgysylltu gyda dinasyddion y sir. Un o'r ffrydiau gwaith a adnabuwyd ar gyfer cyflawni hyn yw'r syniad o greu fforymau ardal er mwyn sicrhau fod yna gyfundrefn strwythuredig ar gyfer rhoddi cyfle i ddinasyddion ardaloedd penodol gael llais a chynorthwyo i siapio datrusiadau yn eu hardal yn benodol.

1.2 Bu Bwrdd Prosiect yn edrych ar y syniad yma gan geisio ei weu hefyd gyda'r angen i sefydlu trefniadau democrataidd newydd. Gwelwyd trefniadau cyffelyb yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan rai cynghorau dros y ffin yn Lloegr.

1.3 Trafodwyd yr egwyddor a'r model arfaethedig gyda'r Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio; Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Ardal; y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau; a'r Prif Bwyllgor Craffu .

1.4 Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda thrwch yr aelodau. Er mwyn sicrhau mewnbwn nifer uchel o'r aelodau, trefnwyd 8 sesiwn gweithdy ar draws y Sir.

1.5 Pwrpas y sesiynau oedd cynnal trafodaeth ar yr egwyddor o sefydlu'r Fforymau Ardal, ac er mwyn darparu cyd-destun eglurwyd yr hyn oedd dan sylw gan geisio hefyd egluro'r egwyddorion y tu ôl iddynt.

1.6 Yn dilyn cynnal y gweithdai, ar argymhelliad y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau bu i'r Prif Bwyllgor Craffu benderfynu argymell i'r Cyngor llawn y dylid sefydlu cyfundrefn Fforymau Ardal i gymryd lle'r Pwyllgorau

Ardal yn y Cyngor newydd o Fai 2012 ar y llinellau a nodir yn yr adroddiad a gyflwynwyd iddynt.

1.7 Yn ddiweddarach lleisiwyd rhywfaint o bryder am y cysyniad gan rai aelodau yn y Cyngor, a hefyd nad oedd y pwyllgorau Ardal wedi cael cyfle i drafod y mater ac felly bu i'r Cyngor gytuno i ystyried ymhellach y syniad o sefydlu Fforymau Ardal i gymryd lle'r Pwyllgorau Ardal gan roddi cyfle i'r pwyllgorau hynny ystyried y mater.

1.8 Bydd y tri pwyllgor Ardal yn ystyried y mater ym mis Mawrth gyda golwg ar gyflwyno eu sylwadau i'r Cyngor newydd ym mis Mai.

1.9 Mae'n debyg fod yna ddau fater sydd angen ei drafod sef –

- Yr egwyddor o sefydlu fforymau ardal;
- A ddylent fod yn ogystal â neu yn lle'r Pwyllgorau Ardal;

ac ystyrir y ddau fater ar wahân isod.

***2.0 Yr egwyddor o sefydlu Fforymau Ardal***

2.1 Yn sylfaenol, pwrpas y Cyngor yw cyflawni gwasanaethau o ansawdd i'n ddinasyddion ac wrth wireddu'r amcan yma, fe ddylem fod yn sicr ein bod yn gwybod beth sydd yn creu gwerth i'r dinasyddion - hynny yw beth sydd o bwys iddynt. Yn aml iawn , ac yn arbennig ar adeg o grebachu ariannol, mae'n rhaid darganfod atebion gan wneud penderfyniadau anodd, ac mae yna le i gredu fod modd cael gwell datrusiadau o fod hefyd yn gwyntyllu problemau gyda'r gymuned leol.

2.2 Y broblem gyda'r dull presennol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yw ei fod yn dueddol o ddeillio o ystyriaeth top lawr o beth sydd orau i'r dinesydd a bod yna dueddiad i lunio atebion unffurf heb gydnabod fod yr hyn sydd o bwys yn medru gwahaniaethu o unigolyn i unigolyn ac o ardal i ardal.

2.3 Mae natur cymdeithas hefyd yn newid i'r graddau nad yw'r model traddodiadol o ddemocratiaeth gynrychioladol (representative democracy) bellach yn dderbyniol ac mae yna ddisgwyl gan nifer bellach i ni newid i fodel democratiaeth gyfranogol (participatory democracy).

2.4 Dylid cofio'r sylw a wnaed gan drigolion Gwynedd yn yr adolygiad MORI sef fod 29% yn dymuno cael mwy o lais yn y penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu hardal leol a 59% pellach yn dymuno hynny yn dibynnu ar y mater dan sylw.

2.5 Bwriad y fforymau ardal felly yw sicrhau ein bod yn rhoddi cyfle iddynt gael y cyfle hynny ac i ymdrechu i ddatblygu atebion lleol i broblemau lleol ar y cyd gyda'r gymuned leol. Trwy wneud hyn, tybir y bydd mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt yn ogystal ag annog mwy o bobl a chymunedau i fod yn hyderus efo'r gallu i ddatblygu eu hatebion eu hunain a bod yn fwy hunangynhaliol.

2.6 Mae gan y cynghorydd lleol rôl allweddol yn amlwg i chwarae mewn cyfundrefn ddemocratiaeth gyfranogol yn ogystal â chyfundrefnau traddodiadol democratiaeth gynrychioliadol. Drwy greu cnewyllyn o aelodau yn cynrychioli ardal leol y fe ddylai'r gyfundrefn gryfhau gallu aelod lleol i fod yn ddolen gyswllt allweddol rhwng y gymuned leol a'r Cyngor ac i fod yn arweinwyr cymunedol.

2.7 Un o amcanion tymor byr allweddol y Fforymau felly fyddai darparu gwybodaeth busnes (business intelligence) ar gyfer y Cyngor (ac asiantaethau eraill) a cheisio darganfod datrysiadau ar gyfer gwireddu'r hyn sydd o bwys yn lleol. Yn yr hir dymor, os ydynt yn llwyddiannus, y bwriad yw ystyried a ellid hefyd darparu rhywfaint o gyllid er mwyn gadel i'r Fforymau eu hunain fedru gwario ar flaenoriaethau lleol.

2.8 Yn gyffredinol, y budd fydd yn deillio i'r ardaloedd o'r trefniant yma fydd trefn strwythuredig er mwyn sicrhau fod llais lleol yn cael ei glywed wrth sefydlu gweithgareddau'r Cyngor ac ar yr un pryd fe ddylai gryfhau rôl yr aelodau lleol fel arweinydd o fewn ardal benodedig.

**3.0 Sut fyddai'r Fforymau yn gweithio**

3.1 Tra bod yr union ardaloedd yn fater i drafod gydag aelodau, yn gyffredinol rhagwelir y byddem yn creu rhwng 8 a 12 ardal er mwyn taro balans rhwng sicrhau fod yr ardaloedd yn cynrychioli "cymunedau" naturiol a'u bod ddigon bach i gynrychioli barn leol tra bod yn ddigon o faint i sicrhau nad oes gennym ormod ohonynt.

3.2 Wrth ystyried cyfansoddiad fforymau, rhoddwyd cryn ystyriaeth i'w maint a'u natur a'r profiadau a gafwyd yn y maes adfywio hyd yma ynghyd a phrofiadau cynghorau eraill a dymuniad amlwg yr aelodau yng Ngwynedd i beidio â gwanio'r sylfaen ddemocrataidd sydd gan yr aelod a etholwyd.

3.3 Cafwyd trafodaeth ar aelodaeth fforymau a nodwyd nifer o ddewisiadau

- Aelodau'r Cyngor yn unig
- Aelodau'r Cyngor + rhai a gyfetholwyd o'r gymuned
- Unrhyw un o'r gymuned oedd yn dymuno bod yn aelod.

3.4 Er mwyn sicrhau ein bod yn parchu'r ffaith fod aelodau wedi eu hethol gan yr etholwyr, ffafriwyd model lle 'roedd yr aelodau lleol yn ffurfio cnewyllyn craidd gyda chymorth uwch swyddog fyddai a'r dasg o sefydlu dyheadau a dymuniadau'r ardal gan roddi rôl arweiniol i'r aelodau arwain cyfarfodydd ehangach o unrhyw un fyddai â diddordeb mynychu cyfarfod (neu gyfarfodydd) i drafod materion penodol dan sylw.

3.5 Mynychwyr y cyfarfodydd fyddai'r Fforwm felly, a rôl yr aelodau lleol fyddai gwrando a distyllu'r sylwadau y byddent yn ei gael mewn cyfarfodydd o'r fath gan symud y materion gweithredu ymlaen gyda'r Uwch Swyddog.

3.6 Byddai hyn yn digwydd wrth i'r aelodau gyfarfod yn anffurfiol gydag Uwch Swyddog er mwyn sefydlu pa gamau sydd angen eu cymryd a chwrdd o dro i dro i ystyried cynnydd. Byddai angen sicrhau fod yna weithredu ar bethau fyddai'n codi ac er mwyn sicrhau hynny rhagwelir y byddai Penaethiaid Gwasanaeth o bosibl yn gyfrifol am un fforwm yr un ac yn cydweithio gyda'r aelodau lleol i sicrhau gweithrediad ac atebolrwydd i'r fforymau.

3.7 Nodir yn yr atodiad yr hyn fyddai'n digwydd i faterion yn ddibynnol ar y mater dan sylw.

3.8 Rhagwelir os gellir cadw ffurf y fforymau ardal yn lled anffurfiol (o gofio mai'r hyn sydd dan sylw yw sicrhau deialog lleol i wyntyllu dyheadau a dymuniadau'r gymuned yn hytrach na chael cyfres o bwyllgorau ffurfiol) fe ddylem hefyd fedru cadw'r baich gweinyddol i'r isafswm.

3.9 O sefydlu'r fforymau ardal felly –

- byddai modd sicrhau cyfundrefn strwythuredig ar gyfer rhoi cyfle i ddinasyddion gael llais yn y materion sy'n effeithio eu hardaloedd;
- drwy wneud hynny hefyd y gobaith yw y byddem yn adeiladu ar allu aelodau lleol i weithredu fe pont rhwng dyheadau lleol a pholisïau'r Cyngor;
- Yn sgil, hyn y gobaith yw y byddem hefyd yn gwella ansawdd ein penderfyniadau;
- byddai hefyd yn arwain at well dealltwriaeth ymysg y trigolion o'r cyfyngiadau y mae'r Cyngor yn gweithio oddi mewn iddynt a'r rhesymau y tu ôl i benderfyniadau;

- Byddai'n gwella gallu aelodau i sicrhau fod yna weithredu ar broblemau sy'n cael eu hadnabod a thrwy hynny wella'r profiad i'r dinesydd.

## *4 A ddylai'r fforymau gymryd lle'r Pwyllgorau Ardal*

4.1 Yn y gyfundrefn reolaethol newydd fydd yn dod i rym yn y Cyngor newydd bydd peth o waith y pwyllgorau ardal yn trosglwyddo i'r Cabinet.

4.2 O'r swyddogaethau a wneir ar hyn o bryd gan y Pwyllgorau Ardal, mae'n debyg y byddent yn medru parhau i dderbyn gwybodaeth am beth sydd yn digwydd o fewn gwasanaethau'r Cyngor a chynrychioli dyheadau'r ardal.

4.3 Y syniad yw bod modd i'r Fforymau Ardal gynrychioli dyheadau ardal yn well gan y byddent yn canolbwyntio ar ardaloedd llai ac yn fwy homogenaidd gan greu grŵp llai o aelodau fyddai'n medru eistedd o gwmpas y bwrdd mewn amgylchedd anffurfiol er mwyn trafod yr hyn sydd angen digwydd yn eu hardal yn hytrach na'r dull mwy ffurfiol o weithredu mewn pwyllgor.

4.4 Mae'r profiad a gafwyd dros oes y Cyngor diwethaf o weithredu drwy weithgorau yn dangos fod hyn yn gweithio.

4.5 Pe byddai mater yn codi fyddai'n berthnasol i fwy nag un ardal yna gellid dod ag aelodau ardaloedd at ei gilydd wrth gwrs.

4.6 Yn y gyfundrefn newydd, bydd disgwyl i wasanaethau fod a chyfundrefn ar gyfer lledaenu gwybodaeth am yr hyn sydd yn digwydd o fewn eu gwasanaethau (ar ffurf bwletin rheolaidd efallai) ac i aelodau'r cabinet ddod yn fwy gweithredol o ran bod a gwybodaeth a pherchnogaeth fwy trylwyr o ddatblygiadau oddi fewn i'w maes portffolio. Bydd disgwyl iddynt gynnal cyfarfodydd neu gymorthfeydd rheolaidd a bydd hyn yn caniatáu i aelodau gael gwybodaeth a herio beth sydd yn digwydd o fewn eu hardaloedd.

4.7 Yn sgil hyn ystyrir mai dyblygu fyddai cynnal y Pwyllgorau Ardal hefyd ac yn wyneb yr angen i ni droi pob carreg er mwyn bod yn fwy effeithlon os am barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol, fe gytunodd y Prif Bwyllgor Craffu gyda hyn.

# FFORYMAU ARDAL – TRYWYDD MATERION ALLASAI GODI

